**Darlith i gofio am y Perganiedydd a fu farw ddau can mlynedd i eleni a draddodwyd ar Fai 23 yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron, i gyfarfod blynyddol Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, Adran Gymraeg y De. Oherwydd ei sylwedd fe gyhoeddir y ddarlith yn ei chrynswth.**

# Williams Pantycelyn

Gan **Meredydd Evans**

GAN EIN bod ni'n cyfarfod yma yn Nhregaron a hynny o fewn ychydig filltiroedd i Langeitho lle ffrwydrodd diwygiad nerthol 1762 mi dybiais y byddai'n werth imi sôn peth am Williams, fel emynydd, gan ganoli sylw ar y casgliad hwnnw o'i emynau a fu'n gymaint rhan o Ddiwygiad Llangeitho, sef *Caniadau y rhai sydd ar y môr o wydr.*

Mi gyfyngaf fy nyfyniadau o'r emynau, gydag un eithriad a nodir ymhellach ymlaen, i'r casgliad gwych hwnnw lle cyrhaeddodd Williams i'w lawn aeddfedrwydd fel un o emynwyr mawr y byd.

Credinwyr, wrth gwrs, sy'n canu emynau ac i ddiwygwyr y ddeunawfed ganrif yng Nghymru roedd crediniwr o'r iawn ryw, trwy ddiffiniad fel 'tae, wedi cael ei argyhoeddi o bechod, ei gymodi â Duw yng Nghrist ac ar ei ffordd tua'r bywyd. Hynny yw, a defnyddio un o'u geiriau allweddol nhw, roedd wedi cael tröedigaeth; wedi ei ail-eni.

Ond doedd hynny ddim yn golygu, bid siwr, fod y ffordd o'i flaen tua bywyd tragwyddol yn ffordd ddidramgwydd. I'r gwrthwyneb. Ffordd yr anialwch oedd hi — un o hoff drosiadau Williams fel y gwyddom i gyd. Droeon eraill, er mwyn cyfleu yn ddramatig fywyd mor ddyrys a pheryglus oedd y bywyd newydd defnyddiai drosiadau eraill, cynhyrfus a bygythiol, megis *rhyfel* a *mordaith stormus.*

Eithr pa ddelwedd neu drosiad bynnag a ddefnyddiai codai hynny o'i brofiad o a'i gyfoeswyr fod llawer o'r hen fywyd, yr hen ddyn, yn parhau yn y bywyd newydd, y dyn newydd.

'Does ryfedd felly fod adleisiau o'r bywyd cyn tröedigaeth i'w clywed yn holl gasgliadau emynyddol Williams; ac yn y fan yna y mae'n rhaid inni ddechrau os ydym am obeithio deall a gwerthfawrogi'r emynau yn iawn: hefo'r cyfeiriadau tuag yn ôl at fywyd y 'dyn naturiol', fel y mynnai Williams a'i gyfeillion synio amdano; at y pechadur cyn iddo ddod i afael gras cadwedigol.

* * * *

DYN — y pechadur cyndyn, gwrthryfelgar. Dyna'r man cychwyn i'r diwygwyr a 'dyw hi ddim yn hawdd i lawer, bellach, yn ein cymdeithas seciwlar ni gychwyn o'r fan honno. Yn wir mae 'na duedd mewn llu ohonom erbyn heddiw i feddwl rywsut fod siarad am bechod yn rhywbeth henffasiwn sy'n ymylu ar fod yn ddi-chwaeth.

Aeth y gair 'pechod' yn air dieithr yng ngeirfa cymaint o Gymry erbyn hyn. Ar y gorau, rhaid ymddiheuro am ei ddefnyddio; ar y gwaetha, mae'n ddiystyr, yn air i'w drin yn ysgafn, efallai, ond nid i'w gymryd o ddifrif.

Dyna fesur o'r pellter sydd rhwng cymaint o Gymry cyfoes a gŵr fel Williams a fynnai ei fod yn gwybod, er mawr boen a dychryn iddo, beth oedd y profiad o'i ffieiddio'i hun, o fod wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw, o ofni, hyd at ei barlysu bron, wynebu sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw, ac o anobeithio yn ei alluoedd ei hun i'w wared ei hun o gaethiwed pechod.

Trown at rai enghreifftiau penodol ohono yn rhoi mynegiant i'r cyflyrau a'r argyhoeddiadau hyn yn ei emynau.

Ystyriwch rai dyfyniadau o'r emyn sy'n agor â'r geiriau: 'Angylion doent yn gyson, rifedi gwlith y wawr'. Dyma un pennill:

*Rwy'n edrych arnaf fy hunan a rhyw gasineb mawr,*
*Mwy diddim, mwy disylwedd na phryfed man y llawr;*
*'D oes ond yr aberth hwnnw wnaed ar Gaersalem fryn,*
*A'm crea oll yn newydd, a'm golch i oll yn wyn.*

Sylwch ar y llinell olaf 'na, yn arbennig lle mae'n dweud mai ei angen mawr yw cael ei 'greu . . . yn newydd'. Ac y mae hwnna, cofier, yn rhywbeth sy'n rhaid *digwydd iddo.* 'All o ddim ei greu ei hun. Sut y medrai pryfyn mân y llawr wneud hynny? 'All o ddim ei ail-eni ei hun ddim mwy nag y medrodd ei eni ei hun i'r byd y tro cyntaf. Rhaid wrth weithredydd ar wahân os yw ail-eni i ddigwydd. Rhaid wrth Dduw Ysbryd Glân.

Ac y mae Williams yn mynnu fod angen creu 'yr oll' ohono yn newydd. Nid rhyw glytio ar ei hen natur yma ac acw; adnewyddu ambell gynneddf yn ei enaid a rhoi swyddogaeth wahanol iddi. Nage, ond gwneud *pob peth* yn newydd. Plannu 'anian' newydd ynddo.

Dyma fel y gosodwyd y mater gan Thomas Charles yn ei Eiriadur — ac yr oedd o a Williams yn rhannu'r un feddylfryd grefyddol:

**Peth newydd ydyw y gras a gyfranir yn yr ail-enedigaeth; rhywbeth *de novo* sydd yn cael ei blanu yn y galon ydyw, na bu erioed o'r blaen yn y natur ddynol; naddo, ddim yn Adda yn ei ddiniweidrwydd. Nid gweithredu ar hen weddillion y ddelw greadigol, neu eu gweithredu hwynt i radd uwch; nid eu diwygio y mae, ac adgyweirio yr hen ddelw adfeiliedig ar ddyn, ond y mae yn gwbl yn waith newydd, a hyny yn yr holl ddyn.** (t.797)

A dowch yn nesaf at ddau gwpled arall c ddau bennill gwahanol o'r un emyn:

*Os ai di i chwilio nghalon, ni chai di yno fawr,*
*Ond beiau maith mor amled â gwlith y bore wawr. . . .*

Ie, 'chwilio nghalon'. Roedd Williams ei hun yn gryn arbgenigwr ar chwilio calonnau; ei galon ei hun a chalonnau ei gyd-fforddolion. Hunan-ymchwilio, hunan-ymholi, hunan-feirniadu: roedd y gweithgaredd yma yn hanfodol i iachawdwriaeth, yn ei olwg o. Er nad oedd yn tybio ei fod yn waith i neb ymhyfrydu ynddo chwaith.

Crafwch chi dipyn o dan yr wyneb, meddai, ac mi ddaw'r hyn sy'n ymddangos, o'r tu allan, yn ddigon teg ei olwg, i'w weld mewn goleuni gwahanol iawn:

*Y weithred gas ei chanmol yn uchel iawn gan ddyn,*
*Mae torf o lygredd ynddi i weld i mi fy hun.*

Ac meddai mewn emyn arall:

*Tlawd oeddem ni, a chloff a dall,*
*Yn gorwedd yng nghadwynau'r fall;*
*Heb chwant na gallu i godi'n llef,*
*I fyny tua theyrnas nef.*

Dyna, felly, gyflwr y dyn naturiol yn ôl y diwygwyr: 'Heb chwant na gallu i godi'n llef'; wedi ei gadwyno mewn pydew dwfn: delwedd a geir yn bur aml yng ngwaith Williams.

* * * *

FFORDD arall o ddisgrifio'r dyn naturiol hefyd yw ei fod wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw. A throi at Thomas Charles eto, dyn ydi o sydd nid yn unig 'yn farw i garu Duw' ond, ymhellach, 'yn byw mewn gelyniaeth yn ei erbyn'; yn byw 'yn hollol groes' i'r bywyd sydd yng Nghrist:

*Perein gwan heb rym, heb sgil,*
*I deithio wyf yn mlaen,*
*Trwy gynifer llwybr dyrus cul,*
*Dyeithr im' o'r blaen.*

Ac yn y fan yma y carwn i droi oddi wrth y *Môr o Wydr* a dyfynnu pennill o emyn a geir yn *Ffarwel Weledig (Rhan I).* Mae hwn yn mynegi'r hyn sy ag angen ei ddweud, yn y cyd-destun presennol, yn well na dim pennill arall y medra' i feddwl amdano fo yng ngwaith Williams.

Methu â dallt y mae'r bardd yn y pennill dan sylw sut y daeth y fath newid i ran y sawl a brofodd ras cadwedigol:

*B'le enynnodd fy nymuniad?*
*B'le ca's fy serchiadau dân?*
*B'le daeth hiraeth im' am bethau*
*Oeddwn yn gasau o'r blaen?*
*Iesu, Iesu*
*'R cwbwl ydyw gwaith dy law.*

*Pethau oeddwn yn gasau o'r blaen,* sylwch; ymadrodd cryf eithriadol, ond hollol briodol yn ôl Williams. Yn ein perthynas â Duw, meddai, 'does dim ffordd ganol: 'Yr hwn nid yw gyda ni yn ein herbyn y mae', meddai'r Gair. Y naill neu'r llall; gyda Duw yn ei erbyn. Ac yn ei erbyn y mae'r sawl na dderbyniodd ras cadwedigol. Dyma ddau bennill i'w hystyried:

*O gariad anhaeddiannol rhad!*
*Ac anfesurol ei barhad!*
*At rai afradlon, cyndyn cas,*
*Bradychwyr gwaredigol ras.*

*Gynt yn elynion yn ddi-wad,*
*Yn awr ei alw ef yn Dad;*
*A chael d'od yn mhob cystudd blin,*
*Yn rhydd i'w fynwes ef ei hun.*

* * * *

A SUT yr argyhoeddir dyn o'i gyflwr pechadurus? Trwy ddod ag o wyneb yn wyneb â'r Arglwydd yn ei sancteiddrwydd a'i gyfiawnder: y ddwy nodwedd mor arswydus â'i gilydd. Fel y gwelai Williams hi dyna oedd swyddogaeth gyntaf yr Efengylydd. A dyna pam, wrth gwrs, y mae dwy bregeth Boanerges yng ngherdd fawr Williams yn rhagflaenu pregeth Efangeliws.

Boanerges a ddaeth â Theomemphus at Fwlch yr Argyhoeddiad; y pregethwr tanllyd o ddidrugaredd hwnnw a wnaeth ei bechod yn amlwg iddo. Heb y dinoethi creulon hwn ar ei gyflwr gwirioneddol ni fyddai edifeirwch a throi at Dduw yn bosibl iddo. A'r fath wefr ogoneddus a gafodd wedyn wrth wrando ar Efangeliws yn dangos ffordd ymwared iddo!

Yrŵan, mae'r ymwybod hwn â phurdeb ac uniondeb Duw i'w synhwyro yn arbennig o fywiog yng nghefndir yr emyn sy'n agor â'r llinell: 'yn yr anial 'r wyf yn gruddfan'. Gwrandawer ar y penillion hyn:

*Pa le bynag yr edrychwyf,*
*Tua'r llawr, neu ynte i'r lan,*
*D'rysu'n rhyw le ynof f'hunan*
*'R wyf heb symud dim o'r fan;*
*Ceisio gwneuthur, methu gwneuthur,*
*Ffaelu pwyso ar dy rym,*
*Oni ddeui i'r maes dy hunan,*
*A fy nymuniadau'n ddim.*